# UNED : Y FUWCH EIDION – FFRWYTHLONDEB

## STAFF

### CYFLWYNIAD

Pwrpas yr Uned hon ydi amlygu pwysigrwydd ffrwythlondeb buwch a chadw patrwm lloia tynn.

Ar ddiwedd yr Uned hon, bydd myfyrwyr yn gallu deall pwysigrwydd patrwm lloia tynn, rhestru rhesymau dros ffrwythlondeb gwael, ac yn gallu disgrifio prif elfennau rheolaeth ffrwythlondeb buches.

### GEIRIAU ALLWEDDOL

CYNNAL CYFNOD LLOIA TYNN – llafur adeg lloia, rheoli buches a lloi, pwysau trymach wrth ddiddyfnu, batsys cyfartal o loi i'w gwerthu, costau llai a mwy o elw.

CODI CYFRADD BEICHIOGI

LLEIHAU'R CYFNOD RHWNG LLOIA A BEICHIOGI

RHESYMAU DROS FFRWYTHLONDEB GWAEL - cyflwr gwael wrth ofyn tarw, lloia anodd, clefydau, canfod gwael o fuchod yn gofyn tarw.

CANFOD BUCHOD YN GOFYN TARW - aflonydd, mynd ar gefn neu sefyll i gael ei mowntio, bôn cynffon ac asgwrn pin ag ôl rhwbio arnynt, mwcws o'r fwlfa.

GWELLA FFRWYTHLONDEB BUWCH – Darganfod yr achos, porthi ar ôl lloia, bridio, osgoi lloia anodd, iechyd y fuches, canfod buchod yn gofyn tarw a chydamseru, cadw golwg ar y tarw

TARW / SEMENU ARTIFFISIAL (AI) - Teirw o'r ansawdd gorau, mwy nag un brid ar gael, cost neu beryglon cadw tarw, bioddiogelwch, a chyfle i gydamseru canfod buchod yn gofyn tarw â semenu OND rhaid cael cymhwyster canfod buchod yn gofyn tarw, llafur a thrafod buchod.

### ADNODDAU

*EBLEX (2006) Beef Action for Profit 18 – Better Returns from Planned Weaning*

*EBLEX (2007) Beef Action for Profit – 19 – Better Returns from AI*

HCC (2007) Gwneud y Gorau o'ch Gwartheg Sugno

HCC (2008) Bridio Cig Eidion Proffidiol

GWEITHGAREDDAU DYSGU